OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1035 (Cy.105)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi - - - -	*4 Ebrill 2006*
Yn dod i rym - -	*5 Ebrill 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 55(2) i (6) a (7A), 143(1) a (2), a pharagraff 12 i Atodlen 7A a pharagraffau 1 ac 8 i Atodlen 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Tribiwnlysoedd fel sy'n ofynnol gan adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**2**):

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 5 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 8(3), ar ôl y geiriau "service on him", rhodder "or her".

(3) Yn rheoliad 13(3), ar ôl y geiriau " "supplied to him", rhodder "or her".

(4) Yn rheoliad 25(7), yn lle'r geiriau "paragraph 6(a)", rhodder "paragraph (6)(a)".

(5) Yn rheoliad 26—

(a) yn lle'r geiriau "a chairman appointed under regulation 8 of the Valuation and Community Charge Tribunals Regulations 1989", rhodder "a chairperson of the relevant valuation tribunal"; a

(**1**) 1988 p.41. Mewnosodwyd adran 55(7A) gan baragraff 30(5) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Cafodd y pwerau hyn eu dirprwyo, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1.

(**2**) 1992 p.53.

(**3**) O.S. 2005/758 (Cy.63).D. Elis-Thomasmgv1 13-3-06